Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Morswyn
# Ysgol Gymraeg Morswyn
# Lôn Cyttir
# Caergybi
# Ynys Môn
# LL65 2TF

**Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 08/09/2017**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Morswyn, sydd yn cwrdd mewn dosbarth yn Ysgol Gynradd Morswyn, ger Caergybi, yn awdurdod lleol Ynys Môn. Mae'r lleoliad yn agor am bum bore'r wythnos, rhwng 9yb ac 11yb ac mae dau ymarferwr yn gweithredu'n ddyddiol yno.

Mae cofrestriad y lleoliad yn caniatáu derbyn hyd at 24 o blant ar unrhyw adeg benodol, ac mae'r lleoliad yn derbyn plant rhwng dwy a phedair oed.

Mae bron pob un o'r plant o darddiad gwyn Prydeinig a lleiafrif ohonynt sy'n siarad Cymraeg fel eu mamiaith. Ar hyn o bryd, mae ychydig o blant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Dechreuodd yr arweinydd ar ei swydd ym mis Ionawr 2017. Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ddiwethaf ym mis Chwefror 2015 a gan Estyn ym mis Gorffennaf 2012.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- y rhan fwyaf o'r plant yn dangos cynnydd cyson wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)
- bron pob un o'r plant yn dangos cymhelliant a diddordeb yn eu dysgu
- bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn gyfrifol
- ymarferwyr yn cydweithio'n gyson i ddarparu gweithgareddau difyr i wella dysgu'r plant
- yr addysgu'n briodol
- gofal gwyliadwrus yr ymarferwyr yn creu amgylchedd dysgu pwrpasol
- ardaloedd dysgu dan do ac yn yr awyr agored yn ennyn diddordeb y plant yn llwyddiannus

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- yr arweinydd yn rhoi cyfeiriad clir i waith dyddiol a thymor hir y lleoliad
- y pwyllgor rheoli yn monitro a chefnogi'r lleoliad yn rheolaidd
- systemau arfarnu yn creu targedau dilys i weithredu er lles y plant
- hyfforddiant yr ymarferwyr yn effeithiol ac yn dylanwadu'n fuddiol ar wella safonau'r plant
- defnydd pwrpasol o wasanaethau cymorth sy'n effeithio ar les y plant yn gadarnhaol
- partneriaethau positif gyda rhieni, gofalwyr, yr ysgol ac asiantaethau allanol yn cefnogi'r camau nesaf yn nysgu'r plant yn bwrpasol

## Argymhellion

A1 Darparu ymweliadau ac ymwelwyr pwrpasol i gyfoethogi profiadau dysgu’r plant a’u hymwybyddiaeth o’u milltir sgwâr

A2 Sicrhau bod yr addysgu yn herio plant yn unol â'u gallu

A3 Sicrhau bod asesiadau dyddiol yn arwain y cynllunio at y camau nesaf yn nysgu plant unigol

A4 Gwreiddio’r systemau arweinyddiaeth newydd

A5 Gwella trylwyredd y pwyllgor rheoli a’r broses o reoleiddio derbyniadau ariannol a gwariant dyddiol

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd cyson yn eu medrau o fannau cychwyn sy'n is neu'n debyg i'r cyfartaledd disgwyledig. Mae'r cynnydd hyn yn amlwg pan fyddant yn cwblhau tasgau llythrennedd a rhifedd yn ardaloedd dysgu'r lleoliad yn llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn siarad yn glir ac yn gwneud yn siŵr bod oedolion a phlant eraill yn eu deall wrth ymateb i farnau ei gilydd yn ystod gweithgareddau. Maent yn cynnal sgyrsiau buddiol gydag oedolion a'i gilydd wrth werthu hufen iâ yn y siop yn y tŷ bach twt. Maent yn gwrando ar gyfarwyddiadau gan eraill ac yn eu gweithredu arnynt yn effeithiol. Mae hyn yn arbennig o amlwg pan fyddant yn peintio a phrintio pysgod cennog gyda phaent a seleri ac wrth iddynt ganu hwiangerddi a chaneuon yn frwdfrydig yn y Gymraeg. Mae llawer o'r plant yn mynegi eu teimladau a'u hemosiynau yn synhwyrol wrth iddynt gytuno ar amser penodol i yrru beiciau.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dangos diddordeb mewn llyfrau ac yn mwynhau eu cynnwys. Maent yn trafod cymeriadau a digwyddiadau yn hyderus gydag oedolion a chyfoedion ac yn trin y llyfrau fel darllenwyr naturiol. Mae llawer o blant yn eistedd yn dawel ac yn dilyn storïau a ddarllenir iddynt yn ddeallus. O ganlyniad, maent yn ymateb â diddordeb i gynnwys y stori. Mae ychydig o blant yn defnyddio iaith soffistigedig yn ystyrlon mewn chwarae digymell a strwythuredig. Mae hyn yn digwydd pan fyddant yn defnyddio gefel i godi cerrig mân a chregyn, ac wrth wneud marciau yn yr ardal bensiliau prysur.

Mae llawer o'r plant yn gwneud marciau yn effeithiol. Maent yn mwynhau profiadau ysgrifennu cynnar ac yn defnyddio amrywiaeth o gyfryngau fel paent, sialc, creonau, pensiliau ac ysgrifbinau lliwgar. Mae ychydig iawn o'r plant yn adnabod eu henwau eu hunain yn gywir ac mae'r plant hyn yn ceisio ffurfio llythrennau'r wyddor a rhifau yn annibynnol ac effeithlon. Mae mwyafrif o'r plant yn esbonio diben ysgrifennu yn y cyd-destunau cywir wrth wneud marciau ar fyrddau sialc ac wrth gymryd archebion yn y siop a chaffi chwarae rôl.

Mae llawer o'r plant yn defnyddio iaith fathemategol yn bwrpasol ac mewn cyd-destunau perthnasol. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cyfrif, yn adnabod ac yn enwi rhifau hyd at bump yn hyderus, ac mae ychydig ohonynt yn cyfrif i ddeg a thu hwnt yn hawdd, wrth gyfrif ei gilydd yn ystod amser cylch.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dewis offer a deunyddiau perthnasol i ddatrys problemau mathemategol yn effeithiol. Maent yn defnyddio tafol yn llwyddiannus i bwyso gwrthrychau gwahanol a threfnu ei gilydd yn gyntaf, ail a thrydydd i yrru eu beiciau trwy'r peiriant golchi ceir yn yr ardal allanol. Hefyd, maent yn cydweithio'n dda wrth bysgota â rhwyd i ddarganfod hwyaid â rhifau arnynt.

Mae mwyafrif o'r plant yn deall y gwahaniaeth rhwng symud i'r dde a'r chwith wrth iddynt drafod newid onglau trac. Maent hefyd yn grwpio mathau gwahanol o wrthrychau yn ôl maint, siâp a lliw yn gywir. Mae llawer o'r plant yn cymharu siapiau dau ddimensiwn a thri dimensiwn yn gywir. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys creu colâj ar bapur wrth ludo dail a gwellt ac wrth adeiladu blociau i greu tŵr yn yr ardal adeiladu.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dechrau defnyddio technoleg yn effeithiol wrth ddefnyddio llechi electronig a thrwy dasgau sy'n cynnwys teganau electronig a chamerâu. Maent hefyd yn defnyddio meddalwedd addysgol ac apiau ar y llechi i ddatblygu eu medrau TGCh a'u medrau echddygol manwl yn llwyddiannus.

Mae llawer o'r plant yn datblygu medrau meddwl craff trwy weithgareddau diddorol, a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar eu dysgu a'r safonau y maent yn eu cyflawni. Maent yn gweithio'n ddeallus gydag eraill wrth iddynt archwilio cyfaint a chapasiti gwahanol gynwysyddion, gan benderfynu a yw bwcedi tywod yn 'llawn', 'gwag' neu'n 'hanner llawn' wrth adeiladu cestyll tywod.

Mae bron pob un o'r plant yn hoffi gwrando ar gerddoriaeth ac maent yn ymateb yn frwdfrydig i hwiangerddi a chaneuon cyfarwydd yn Gymraeg. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn defnyddio'u medrau corfforol yn llwyddiannus wrth iddynt yrru o amgylch mannau agored yn llawn egni ar feiciau, a rhedeg ac ochrgamu ar lwybr yng nghoedwig yr ysgol.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r plant yn dangos cymhelliant a diddordeb yn eu dysgu, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn canolbwyntio'n dda iawn yn ystod eu tasgau. Maent yn diddori mewn gweithgareddau grŵp ac yn mwynhau'r tasgau a ddarperir ar y cyfan. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn rhannu adnoddau ac yn gweithio'n synhwyrol gyda phlant eraill. O ganlyniad, maent yn dangos agweddau cadarnhaol at brofiadau newydd, fel pan fyddant yn defnyddio chwyddwydrau i ddarganfod rhifau ar gregyn.

Mae bron pob un o'r plant yn uniaethu'n dda ag oedolion ac ymwelwyr pan fyddant yn cyrraedd y lleoliad a phan fyddant yn gadael. Maent yn ymddwyn yn dda ac yn dangos parch at oedolion a'i gilydd. Maent yn gwrando'n ofalus ar ymarferwyr, fel pan fyddant yn trefnu lolipops o wahanol liwiau yn y caffi chwarae rôl, ac wrth drefnu lliwiau a chreu siapiau ar fwrdd pegiau.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dechrau deall y gallant wneud dewisiadau synhwyrol yn ystod chwarae rhydd. Maent yn mynegi barn a gwneud dewisiadau personol yn effeithiol, fel pan fyddant yn penderfynu symud o un ardal chwarae i un arall yn annibynnol, tu mewn i'r adeilad ac yn yr awyr agored. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ddysgwyr hyderus.

Ar ôl defnyddio'r toiled, chwarae bawlyd a gweithgareddau awyr agored, mae bron pob un o'r plant yn golchi eu dwylo'n drylwyr ac heb lawer o anogaeth gan yr oedolion. Mae hyn yn datblygu eu hymwybyddiaeth o hylendid da yn llwyddiannus.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r profiadau dysgu yn targedu anghenion a diddordebau'r plant yn bwrpasol ac yn cynnig cyfleoedd buddiol iddynt ddatblygu fel dysgwyr annibynnol. Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn darparu cwricwlwm cytbwys sy'n adlewyrchu ethos y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol.

Mae'r ymarferwyr yn gweithio'n gydwybodol â'i gilydd i ddarparu gweithgareddau diddorol a difyr sy'n cymell plant i ddysgu'n ymarferol. Maent yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau corfforol, medrau meddwl a medrau creadigol y plant yn synhwyrol, er enghraifft wrth iddynt yrru'n fywiog ar feiciau, chwarae rôl ar long bren tu allan a pheintio.

Mae ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu ysgogol yn effeithlon. Mae'r system gynllunio newydd yn effeithio'n dda ar brofiadau dyddiol y plant ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at frwdfrydedd y plant wrth iddynt ddysgu drwy chwarae, dan do ac yn yr awyr agored.

Mae'r cynllunio i dargedu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y plant yn ddeallus. Maent hefyd yn cynnwys heriau i ddatrys problemau gyda chwyddwydrau a defnyddio til ac arian yn y caffi. Mae tasgau pwrpasol i'w gweld yn amlwg yn yr holl feysydd dysgu ac maent yn herio llawer o'r plant i berfformio ar eu gorau yn gyson. Ar y cyfan, mae'r gweithgareddau yn adeiladu'n effeithiol ar wybodaeth a dealltwriaeth bresennol y plant. Fodd bynnag, nid yw'r cyfleoedd bob tro'n herio'r plant mwyaf galluog yn ddigon da.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod bod medrau Cymraeg y mwyafrif o'r plant ar lefel isel pan fyddant yn cychwyn yn y lleoliad. Maent yn mynd i'r afael â hyn yn briodol drwy fodelu geiriau, rhifau, lliwiau ac ymadroddion syml yn rheolaidd. O ganlyniad, mae dealltwriaeth y rhan fwyaf o'r plant o'r iaith yn datblygu'n bwrpasol. Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau, dathliadau a diwylliant Cymru'n llwyddiannus. Ymhlith y gweithgareddau hyn mae dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Santes Dwynwen yn flynyddol.

Darperir cyfleoedd effeithiol i blant ddefnyddio offer TGCh fel teganau a llechi electronig, chwaraewr cryno ddisg a chamerâu. Cynigir cyfleoedd rheolaidd i blant ddatblygu eu medrau TGCh yn llwyddiannus, drwy ddefnyddio meddalwedd addysgol yn bwrpasol ar y llechi.

Nid yw'r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o ymweliadau ac ymwelwyr i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant ar hyn o bryd. O ganlyniad, nid oes ymwybyddiaeth gadarn gan y plant o'u milltir sgwâr na dealltwriaeth ddefnyddiol o rolau pobl yn eu cymuned.

**Addysgu: Digonol**

Mae ymarferwyr yn cyfarch y plant yn gynnes wrth iddynt gyrraedd y lleoliad ac maent yn rheoli ymddygiad plant yn effeithiol. Mae hyn yn annog cyfranogiad a mwynhad y plant yn y gweithgareddau.

Mae’r ymarferwyr yn meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad plant. Maent yn deall gofynion y Cyfnod Sylfaen ac yn cydweithredu’n effeithlon. Mae’r ymarferwyr yn dangos cydbwysedd synhwyrol rhwng gweithgareddau sydd dan gyfarwyddyd y plant a gweithgareddau sy’n cael eu harwain gan oedolion. Maent yn darparu ystod eang o gyfleoedd i blant i’w galluogi i ddysgu trwy brofiadau ymarferol a thrwy chwarae. Fodd bynnag, ar adegau, mae nifer o gyflwyniadau torfol ac ambell weithgaredd yn colli cyflymder a throi’n undonog a difflach. O ganlyniad, mae ychydig o blant yn colli diddordeb.

Mae gan yr ymarferwyr ddisgwyliadau uchel ar gyfer y mwyafrif o’r plant ac maent yn herio’r plant hyn yn gyson mewn tasgau ffocws. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn herio’r plant mwyaf galluog i berfformio ar eu gorau yn ddigon rheolaidd. Mae ymarferwyr yn holi llawer o blant yn llwyddiannus er mwyn datblygu eu medrau meddwl, rhifedd a chyfathrebu. Mae hyn yn amlwg wrth drin a thrafod y broses o gyfatebu a pharu lluniau a thorri siapiau allan o does.

Mae’r ymarferwyr yn cwblhau asesiadau cyson yn drwyadl. Maent hefyd yn trafod yn bwrpasol gyda’r plant beth mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith. Maent yn cofnodi arfarniadau a thrafodaethau ar daflenni cofnodi ac yn anodi gwaith plant yn eu llyfrau cofnod yn rheolaidd. Fodd bynnag, er bod manylder i’w gwaith, nid yw’r asesu yn llywio’r cynllunio yn ddigon effeithiol i dargedu anghenion plant unigol a’r camau nesaf yn eu dysgu.

Erbyn hyn, mae ymarferwyr yn dangos tystiolaeth o waith y plant yn ôl deilliannau yn effeithlon, wrth iddynt aeddfedu yn y lleoliad, gan ddefnyddio Proffil y Cyfnod Sylfaen. Mae’r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn effeithiol am gyflawniadau eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae’r lleoliad yn darparu cyfleoedd pwrpasol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant. Mae’r ymarferwyr yn defnyddio sesiynau grŵp yn synhwyrol i ganolbwyntio ar deimladau plant a’r modd y maent yn trin pobl eraill. Drwy wneud hynny, mae ymarferwyr yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch yn effeithiol. Mae’r arferion dyddiol hyn yn fuddiol i ethos cyffredinol a gweithgareddau’r lleoliad.

Mae trefniadau effeithlon gan y lleoliad i gefnogi iechyd a lles disgyblion. Mae’r trefniadau hyn yn cyfrannu’n dda at eu datblygiad ac yn cefnogi eu dysgu yn llwyddiannus. Mae’r lleoliad yn hybu bwyta ac yfed yn iach ac, o ganlyniad, mae plant yn deall bod ffrwythau, llysiau a chadw’n heini yn rhan bwysig o ddiet synhwyrol a bywydau iachus.

Mae’r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i blant fyfyrio, trafod teimladau a dweud diolch bob dydd. Mae hyn yn creu llonyddwch wrth i’r plant eistedd i wrando ar oedolion, ymarfer golchi eu dwylo a dweud diolch am eu bwyd. Mae ymarferwyr yn rhoi cyfleoedd defnyddiol ac ymarferol iddynt weini a chynorthwyo ei gilydd er mwyn datblygu eu hannibyniaeth. O ganlyniad, mae plant yn cymryd eu tro’n gwrtais wrth fwyta byrbryd o amgylch y bwrdd bwyta.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant ailgylchu papur a cherdyn yn y lleoliad, a nwyddau plastig a bwyd trwy systemau'r ysgol. Mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn effeithiol.

Mae'r lleoliad yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol, sy'n dileu unrhyw fath o aflonyddwch ac ymddygiad afresymol. O ganlyniad, mae'r plant yn hapus ac yn ddiogel yng nghwmni oedolion ac maent yn aml yn gofyn am help a chymorth heb bryderu. Mae'r lleoliad yn amgylchedd diogel ac mae'r ymarferwyr yn cymryd gofal mawr o'r plant pan fyddant yn cyrraedd a gadael. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r lleoliad yn cofnodi anghenion dysgu plant yn drylwyr pan fyddant yn ymuno ac yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad. Mae ymarferwyr yn adolygu cynnydd plant yn rheolaidd ac yn targedu plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol pan fydd angen. Mae ymarferwyr yn trafod y plant hyn gyda'r asiantaethau cefnogi pan mae'r angen yn codi i dargedu eu hanghenion yn briodol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ethos gofalgar drwy'r gweithgareddau dyddiol a'r agweddau sy'n cael eu mabwysiadu gan ymarferwyr. O ganlyniad, mae yma gymuned gynhwysol lle mae pob plentyn yn cael mynediad cyfartal i'r meysydd dysgu ac offer. Mae'r ymarferwyr yn cydnabod unigolrwydd pob plentyn yn synhwyrol.

Rhoddir pwyslais clir gan bob ymarferydd ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Mae'r lleoliad yn cyflawni hyn yn llwyddiannus drwy ddathlu gwyliau gwahanol ledled y byd, fel y Flwyddyn Newydd Dsieiniaidd a thrafod storïau moesol o gyfandiroedd eraill fel Affrica.

Mae'r lleoliad yn defnyddio adnoddau'n bwrpasol i fodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen ac anghenion y plant. Mae'r ymarferwyr yn darparu ystod eang o adnoddau ac maent ar gael i bob plentyn ddewis eu defnyddio a'u rhoi yn ôl. Mae hyn yn hyrwyddo'u hymdeimlad o gyfrifoldeb yn llwyddiannus. Mae'r gweithgareddau parhaus, ffocws a thasgau i gyfoethogi yn gwneud defnydd o adnoddau dysgu yn effeithiol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu'r plant, yn enwedig wrth wneud marciau ag amrywiaeth o gyfryngau a defnyddio arian yn y siop chwarae rôl.

Mae'r adeilad o ansawdd addas, mae'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac mae'n ddiogel. Mae'r ardal awyr agored yn cynnwys cyfleoedd i blant dyfu planhigion yn ogystal â chyfarpar chwarae rôl ac ardaloedd eang, sy'n cynnwys cae ac ardal goed, ar gyfer chwarae bywiog.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Yn dilyn ei hapwyntiad ym mis Ionawr eleni, mae'r arweinydd wedi sicrhau bod arferion arweinyddiaeth yn dechrau gwreiddio'n briodol yn y lleoliad. Mae hi'n cymell

ymarferwyr i greu newidiadau mewn ffyrdd cadarnhaol ac yn defnyddio gwybodaeth berthnasol a rheolaidd ynglŷn â'r lleoliad i sicrhau gwelliannau i'r ddarpariaeth a deilliannau disgyblion. O ganlyniad, mae'r arweinydd wedi dechrau sefydlu systemau arweinyddiaeth cadarn ac mae'n hyrwyddo a chynnal arferion i wella gwaith dyddiol y lleoliad yn dda. Fodd bynnag, nid yw'r prosesau hyn eto wedi cael digon o amser i wella elfennau o'r addysgu a'r asesu yn gwbl effeithiol.

Mae'r arweinydd wedi dilyn canllawiau a chyngor yr awdurdod lleol ar sut i gynllunio cwricwlwm eang a chytbwys. O ganlyniad, mae cyfeiriad cadarnhaol i'r gweithgareddau dyddiol a phrosesau hirdymor y lleoliad.

Mae'r arweinydd yn sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer y plant yn ddiddorol ac yn bwrpasol. Mae hi'n diffinio rolau cyfrifoldeb yr ymarferwyr yn glir er mwyn hyrwyddo llwyddiannau yn y lleoliad. Caiff ymarferwyr hyfforddiant perthnasol ac addysgiadol ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth. Mae'r arweinydd wedi dechrau cynnal goruchwyliaethau ac arfarniadau effeithiol o'r ymarferwyr eraill ac mae'r pwyllgor rheoli newydd yn dechrau arfarnu gwaith yr arweinydd yn gadarn.

Mae'r pwyllgor rheoli yn derbyn gwybodaeth ddefnyddiol am arferion y lleoliad o ddydd i ddydd gan yr arweinydd ac mewn cyfarfodydd rheolaidd. Mae'r pwyllgor wedi creu arferion priodol i sicrhau ansawdd ac maent yn dechrau effeithio ar y ddarpariaeth a deilliannau'r plant. Mae'r pwyllgor yn gefnogol ac yn sicrhau rheolaeth ariannol gadarn drwy archwiliadau annibynnol yn flynyddol. Fodd bynnag, mae angen gwella trylwyredd y pwyllgor rheoli o ran rheoleiddio derbyniadau ariannol a gwariant dyddiol y lleoliad.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae prosesau gwella ansawdd cadarnhaol yn treiddio trwy waith y lleoliad. Mae'r arweinydd wedi sefydlu trefniadau cyson i fonitro safonau plant a'r ddarpariaeth. Mae'r cydweithio dyddiol pwrpasol, ynghyd â chyfarfodydd staff ffurfiol ac anffurfiol, yn cyfrannu'n llwyddiannus at hyn.

Mae'r systemau hunanarfarnu'n ystyried barnau ymarferwyr, rhieni a gofalwyr, yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin yn dda. Mae hyn yn fuddiol i'r lleoliad o ran cael darlun llawnach o'r ddarpariaeth fel bod yr adroddiad hunanarfarnu sy'n deillio o'r prosesau hyn yn adnabod cryfderau'r lleoliad yn gywir. Mae'r arweinydd yn nodi'r meysydd i'w gwella yn glir yn yr adroddiad hunanarfarnu, ac mae'n defnyddio'r rhain yn uniongyrchol i bennu targedau synhwyrol yng nghynllun datblygu'r lleoliad. O ganlyniad, mae'r arweinydd yn cymryd camau effeithiol i roi newidiadau ar waith trwy gynlluniau gweithredu pwrpasol. Mae'r arweinydd yn dilyn systemau meintiol yr awdurdod lleol wrth hunanarfarnu ac mae ei defnydd o'r system yn sicrhau pontio effeithiol rhwng yr hunanarfarnu a'r cynllun datblygu.

Mae'r arweinydd yn gwella'r ddarpariaeth drwy fabwysiadu strategaethau gwahanol ac mae'n derbyn cyngor gwerthfawr gan eraill, fel yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin. Mae hyn yn cynnwys defnyddio Proffil y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol, gwella cynllunio gweithgareddau dyddiol a sefydlu systemau arweinyddiaeth cadarn. Mae'r arweinydd yn agored i syniadau newydd ac yn barod i arbrofi gyda ffyrdd gwahanol o weithio. Yn ddiweddar, mae hyn yn effeithio'n gadarnhaol ar ddysgu a lles y plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r lleoliad yn gweithio'n dda gyda phartneriaid i wella safonau a lles plant, ynghyd â'r ddarpariaeth. Mae'r partneriaethau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar arferion dyddiol y lleoliad, fel defnyddio tir yr ysgol a'r offer awyr agored. Mae gan y lleoliad gysylltiadau cadarnhaol â staff yn yr ysgol, ac mae hyn yn cynorthwyo trefniadau pontio'r plant yn effeithlon. Mae trefniadau i drosglwyddo asesiadau a gwybodaeth bersonol yn effeithiol ac yn fuddiol i'r plant wrth iddynt ymgartrefu yn yr ysgol. Mae'r lleoliad yn cydweithio'n frwdfrydig gyda'r ysgol i gefnogi elusennau lleol a chenedlaethol. Mae hyn yn helpu meithrin tynerwch a gofal ymhlith y plant.

Mae ymarferwyr yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni a gofalwyr ym mywyd y lleoliad. Maent yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn gyson am bob agwedd ar waith y lleoliad. Maent hefyd yn eu hannog i fynegi'u barnau ar faterion i wella'r lleoliad drwy holiaduron a thrafodaethau rheolaidd.

Mae'r lleoliad yn gweithio'n synhwyrol gydag asiantaethau allanol, fel yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin. Mae'r perthnasoedd cadarnhaol hyn yn atgyfnerthu gwaith y lleoliad ac yn ei gefnogi'n weithredol gyda dogfennaeth i gefnogi'r systemau rheolaeth newydd.

Mae ymarferwyr yn gweithio ac yn cysylltu gydag ystod eang o bartneriaid eraill, sy'n gwneud cyfraniad pwysig at wella'r ddarpariaeth. Mae'r rhain yn cynnwys asiantaethau sy'n cefnogi'r lleoliad gyda hyfforddiant cymorth cyntaf, cyrsiau hylendid bwyd, asesiadau risg, hyfforddiant y Cyfnod Sylfaen a hyfforddiant amddiffyn plant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r arweinydd yn dechrau gwella pob agwedd ar waith y lleoliad yn gyson drwy reoli staff ac adnoddau'n llwyddiannus. Gyda hyfforddiant ac arweiniad pwrpasol, mae'n llwyddo i sicrhau bod ymarferwyr y lleoliad yn effeithiol. Mae systemau rheoli perfformiad yn briodol ar gyfer ymarferwyr. Maent yn eu galluogi i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn effeithlon. O ganlyniad, mae diwylliant o gydweithio effeithiol rhwng ymarferwyr a phartneriaid eraill.

Mae'r lleoliad yn rheoli adnoddau yn dda i gefnogi'r dysgu. Mae arferion a threfn ddyddiol y lleoliad yn gyson ac yn sicrhau bod plant yn elwa o brofiadau dysgu diddorol a chadarnhaol. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn cael mynediad parod i ddigon o adnoddau diddorol i gefnogi eu dysgu'n effeithiol.

Mae gan yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli ddealltwriaeth glir o'r gyllideb, ac maent yn blaenoriaethu gwariant drwy nodi cyfrifoldebau a graddfeydd amser synhwyrol. Maent yn creu gwelliannau rheolaidd trwy drafod ac ariannu cynlluniau ar gyfer gwella yn bwrpasol, sy'n cynnwys diweddaru adnoddau TGCh. Mae'r lleoliad yn sicrhau bod defnydd o gyllid yn cael effaith uniongyrchol ar safonau a lles plant, ynghyd â'r ddarpariaeth o brofiadau dysgu.

Yn gyffredinol, mae'r lleoliad yn cynnig gwerth da am arian oherwydd yr effaith gadarnhaol ar ddeilliannau'r plant.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Nicholas Jones | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |